

Arfer Cynhwysol a Map Darpariaeth Anghenion Dysgu y Blynyddoedd Cynnar



Cynnwys

Diagram o raddfa'r ddarpariaeth

Rhagarweiniad

Pam fod map y ddarpariaeth wedi cael ei greu?

Beth yw nod Llywodraeth Cymru wrth greu'r fframwaith newydd ar gyfer cefnogi ADY?

Egwyddorion Cynhwysiant

Arfer cynhwysol:

Addasiadau Rhesymol

Datblygu a Dysgu

Asesu a Monitro

Map y Ddarpariaeth

Beth yw pwrpas Map y Ddarpariaeth?

Darpariaeth Gyffredinol

Beth yw 'Darpariaeth Gyffredinol'?

Differentiation

Beth yw 'gwahaniaethu'?

Llawlyfr y Cyfnod Sylfaen

Fframwaith Statudol Arolygiaeth Gofal Cymru

Deddf Cydraddoldeb (2010) 'Addasiad Rhesymol'

Mathau o wahaniaethu

Dull ymarferol i wahaniaethu

Pethau i feddwl amdanynt

Beth yw 'ymyriadau wedi'u targedu'?

Ymarfer a Chynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Beth yw Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Pecynnau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Beth yw pecynnau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Y Proffil Un Dudalen

Beth yw Proffil Un Dudalen?

Pam defnyddio Proffiliau Un Dudalen?

Pryd y dylid ysgrifennu Proffil Un Dudalen a phwy ddylai ei ysgrifennu?

Mae'n bwysig 'i'

Mae'n bwysig 'ar gyfer'

Cydbwysu 'Mae'n bwysig i' a 'Mae'n bwysig ar gyfer'

'Beth sy'n gweithio'

'Beth sydd ddim yn gweithio'

'Sut orau i gefnogi...'

Cynnwys

FAQs

Beth sy'n digwydd pan fydd plentyn angen cefnogaeth ychwanegol yn y cam Darpariaeth Gyffredinol drwy ddull wedi'i dargedu (ar ôl darparu strategaethau/ymyriadau priodol dros gyfnod rhesymol o amser)?

Beth sy'n digwydd os bydd plentyn, sydd eisoes yn ymwneud â'r Gwasanaethau Iechyd, yn mynd i leoliad ac angen cefnogaeth ychwanegol ar unwaith?

Beth am y plentyn sydd â rhieni sydd eisiau iddynt aros yn y lleoliad cyn ysgol a pheidio â chofrestru mewn meithrinfa ysgol?

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY)

Beth yw Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY)?

Dyletswydd yr Awdurdod Lleol

Beth sy'n digwydd ar frig y triongl?


Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Rhestr Atodiadau

- 1 Ffurflen Gais (Cyn ysgol)
- 2 Llwybr Hysbysu Cyn Ysgol
- 3 Rhestr Pecyn Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- 4 'Gwerthfawrogiadau'
- 5 Proffil Un Dudalen
- 6 Enghraifft o Broffil Un Dudalen
- 7 Enghraifft o Broffil Un Dudalen wedi'i deilwra
- 8 Siart cyfathrebu (rhan 1)
- 9 Siart cyfathrebu (rhan 2)
- 10 Cofnod Dysgu
- 11 4 + 1 cwestiwn
- 12 Yr hyn sy'n gweithio/ddim yn gweithio
- 13 Cylch Perthynas
- 14 Adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- 15 Beth sy'n gwneud Diwrnod da/Diwrnod gwael?
- 16 Taflen 'Myfyrio ar Ymarfer'
- 17 Gwybodaeth atebol i gael ei gyflwyno gan leoliadau nas cynhelir tra'n cyflwyno 'Opsw'n 1' neu 'Opsw'n 3' yn unig y Ffurflen Gais (Cyn ysgol)
- 18 Dogfennau /adnoddau / dolenni defnyddiol

Graddfa'r Ddarpariaeth



Rhagarweiniad

Mae map y ddarpariaeth wedi cael ei lunio:

- drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y chwe sir yng ngogledd Cymru
- drwy weithio mewn partneriaeth rhwng addysg y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau gofal plant ac iechyd Sir y Fflint.

Y bwriad yw:

- cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddeall y dylai'r ddarpariaeth fod ar gael i blant ym mhob cam o'u taith drwy'r broses ADY yn y Blynyddoedd Cynnar
- hyrwyddo dealltwriaeth glir o egwyddorion arferion ADY
- sicrhau dull cyson tuag at ADY ar draws y rhanbarth.

Pam fod map y ddarpariaeth wedi cael ei greu?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i drawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae wedi creu fframwaith newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed.

Mae Deddf newydd o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') yn creu fframwaith cyfreithiol ar gyfer y system newydd o gefnogaeth ADY. Bydd y fframwaith newydd yma'n cael ei weithredu yng Nghymru o fis Medi 2021 a bydd yn disodli'r system bresennol sy'n cael ei defnyddio i gefnogi anghenion addysgol arbennig (AAA).

Beth yw nod Llywodraeth Cymru wrth greu'r fframwaith newydd ar gyfer cefnogi ADY?

Drwy'r fframwaith statudol yma, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac y gallant gyflawni eu llawn botensial, trwy greu:

- Un fframwaith unedig i gefnogi plant a phobl ifanc (0 - 25) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Proses integredig, cydweithrediadol o asesu, cynllunio a monitro cefnogaeth a roddir i ddysgwyr ADY sydd yn hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
- System deg a thryloyw i ddarparu gwybodaeth a chynghor, ac i ddatrys pryderon ac apeliadau.

Egwyddorion Cynhwysiant

Arfer cynhwysol:

Mae'n rhaid i arfer cynhwysol o ansawdd fod ar gael i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn, rhieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol i ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel sydd yn cael ei addasu i anghenion unigolyn y plentyn.

Addasiadau Rhesymol:

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, yn rhoi dyletswydd ar y lleoliad neu ddarparwr gwasanaeth, i wneud addasiadau rhesymol i blant sydd ag anableddau (yn cynnwys anawsterau dysgu).

Mae'n rhaid i leoliadau neu ddarparwyr gwasanaeth gael gwared neu leihau rhwystrau i alluogi mynediad i'r amgylchedd, cyfleoedd dysgu/cwricwlwm a chyfleusterau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y profiadau sy'n cael eu darparu.

Addasiadau rhesymol yw newidiadau sydd yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad a lles plentyn. Fe all y newidiadau yma gynnwys disgwyliadau'r ymarferydd, hygyrchedd at adnoddau priodol, arferion hyblyg, trefnu staff ac addasiadau i'r amgylchedd.

Mae nifer o addasiadau rhesymol yn rhad ac yn golygu newid arferion yn hytrach nag offer drud neu staff ychwanegol.

Datblygu a Dysgu:

Yn y Blynyddoedd Cynnar rydym ni'n deall bod cwricwlwm yn golygu cyfleoedd dysgu eang a chytbwys, sy'n seiliedig ar chwarae.

'Mae hyn yn cwmpasu anghenion datblygu plant. Wrth wraidd y fframwaith mae datblygiad cyfannol plant a'u sgiliau, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu a gwybodaeth flaenorol'.

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen Cwricwlwm i Gymru (2015)

Asesu a Monitro:

'Drwy gydol eu blynyddoedd ffurfiannol, bydd dysgu plant yn datblygu'n gyflymach nag ar unrhyw adeg arall. Fodd bynnag, nid yw cynnydd yn wastad ac mae plant yn mynd drwy gyfnodau o ddatblygiad cyflym ac adegau pan fydd yn ymddangos eu bod yn cymryd cam yn ôl. Dylai cwricwlwm i blant ifanc fod yn briodol i'w cam dysgu yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y deilliannau cysylltiedig ag oedran i'w cyflawni. Dylai plant symud ymlaen i gamau nesaf eu dysgu pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol ac ar eu cyflymder eu hunain.'

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen Cwricwlwm i Gymru (2015)

Nid yw pob plentyn yn dilyn y llwybr datblygiadol nodweddiadol ond maent dal i wneud cynnydd ar eu taith unigol eu hunain. Mae'r cylch o arsylwi, ystyried, adlewyrchu a chynllunio yn hanfodol i adnabod y camau nesaf mewn dysgu neu adnabod ADY posibl.

Map y Ddarpariaeth

Beth yw pwrpas Map y Ddarpariaeth?

Mae map y ddarpariaeth yma'n rhoi trosolwg o'r lefelau gwahanol o ddarpariaeth y gellir eu cynnig i blant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i'w helpu i gyflawni eu llawn potensial. Mae'n dangos dull graddol.

Cynllun Datblygu Unigol a Gynhelir gan Awdurdod Lleol (CDU)

11.21 'Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo lunio CDU ar ei gyfer' (Cod ADY Cymru 2021),

Ar frig y triongl mae 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol' y bydd plant sydd ag ADY yn ei dderbyn. Mae'r rhan ar frig y triongl yn bennaf o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol.

Mae rhan fwyaf y triongl yn cyfeirio at ddarpariaeth sydd yn gyfrifoldeb ar y lleoliad, hynny yw 'darpariaeth gyffredinol sydd yn cynnwys dull gwahaniaethol ac ymyriadau wedi'u targedu'.

Darpariaeth Gyffredinol sydd yn cynnwys dull gwahaniaethol ac ymyriadau wedi'u targedu

20.14 Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol er mwyn i'r dysgwr allu dysgu mewn ffordd fwy effeithiol... Disgwylir bob lleoliad addysg gyflwyno addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill...bydd angen dull gwahaniaethol ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc mewn rhyw agwedd o'u haddysg ar ryw adeg. Mae hon yn elfen sylfaenol – ond arferol – o addysgu o ansawdd (Cod ADY Cymru 2021)

Amgylchedd a phrofiadau o ansawdd uchel

Darpariaeth Gyffredinol

Beth yw 'Darpariaeth Gyffredinol'?

'Darpariaeth Gyffredinol' yw'r hyn mae lleoliad yn ei ddarparu'n ddyddiol er mwyn i'r plentyn allu datblygu a chyflawni ei botensial.

Dylai'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar y plentyn a dylai gynnwys:

- amgylchedd o ansawdd uchel, gyda digonedd o adnoddau
- arferion clir
- oedolion sydd yn gwybod sut i gefnogi anghenion unigol plentyn ar draws pob maes o ddatblygiad.

Fel rhan o'i ddarpariaeth gyffredinol, mae disgwyl i leoliad gefnogi plant drwy:

- amrywiaeth o strategaethau ac ymyriadau. Fe ddylai'r strategaethau ac ymyriadau yma fod yn rhai sy'n cael eu cydnabod yn eang fel 'arferion da' o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- dull 'gwahaniaethol'. Mae hyn yn rhan bwysig o ddarpariaeth gyffredinol o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar, ac fel ddylai fod yn un sydd yn diwallu anghenion y mwyafrif o blant.

Dull Gwahaniaethol

Beth yw 'dull gwahaniaethol'?

Mae 'dull gwahaniaethol' yn cyfeirio at y ffordd mae dulliau addysgu, adnoddau a'r amgylchedd yn cael eu haddasu i weini ar gyfer anghenion unigol plant a'u hoff ddull o ddysgu. Mae'n golygu addysgu pobl yn wahanol yn unol â'u hanghenion, eu gallu neu hyd yn oed eu 'dulliau dysgu' maen nhw'n eu ffafrio. Mae staff angen sicrhau eu bod yn defnyddio amrywiaeth o dulliau addysgu sydd yn addas ar gyfer galluoedd a dewisiadau dysgu gwahanol y plant yn eich lleoliad.

Mae darpariaeth gyffredinol yn golygu ystyried anghenion datblygiadol grwpiau a phlant unigol a newid yr hyn sy'n cael ei gynnig, a'r ffordd mae'n cael ei gyflwyno, er mwyn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu mewn modd sydd yn addas iddyn nhw ac yn briodol i lefel eu datblygiad.

Mae disgwyliad dull gwahaniaethol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar wedi'i nodi yn:

1) Fframwaith y Cyfnod Sylfaen:

'Mae ar blant angen cwricwlwm eang, cytbwys sydd wedi'i wahaniaethu. Drwy gynllunio priodol a phrofiadau strwythuredig yn y Meysydd Dysgu, dylai plant dyfu a datblygu a dylid gweld cynnydd yn eu datblygiad'

2) Fframwaith statudol Arolygiaeth Gofal Cymru - 'Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 mlwydd oed' – Safon 4

'Bodloni anghenion unigol: Canlyniad: Mae anghenion unigol pob plentyn, yn cynnwys unrhyw anghenion addysgol arbennig ac anabledau, a'u bod yn cael eu cynllunio a'u darparu ar eu cyfer.'

3) Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar y lleoliad/darparwr gwasanaeth, i wneud addasiadau rhesymol i blant sydd ag anabledau (yn cynnwys anawsterau dysgu). Mae'n rhaid i lleoliadau neu ddarparwyr gwasanaeth gael gwared neu leihau rhwystrau i alluogi mynediad i'r amgylchedd, cyfleoedd dysgu/cwricwlwm a chyfleusterau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y profiadau sy'n cael eu darparu.

'Addasiadau rhesymol' yw newidiadau sydd yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad a lles plentyn. Fe all y newidiadau yma gynnwys disgwyliadau'r ymarferydd, hygyrchedd at adnoddau priodol, arferion hyblyg, trefnu staff ac addasiadau i'r amgylchedd. Mae nifer o addasiadau rhesymol yn rhad ac yn golygu newid arferion yn hytrach nag offer drud neu staff ychwanegol.

Mathau o wahaniaethu

Mae yna dri chategori o wahaniaethu

- Gwahaniaethu yn ôl tasg, sy'n golygu gosod tasgau gwahanol i ddisgyblion sydd â gallu gwahanol
- Gwahaniaethu yn ôl cefnogaeth, sy'n golygu rhoi mwy o gymorth i blant penodol yn y grŵp
- Gwahaniaethu yn ôl canlyniad, sy'n golygu gosod tasgau pen agored a galluogi plant i ymateb a lefelau gwahanol

Yn ddelfrydol, dylai staff fod yn defnyddio'r tri math o wahaniaethu er mwyn gallu cyflwyno'r dulliau dysgu gwahanol yn y lleoliad.

Ni ddylai staff ddibynnu ar wahaniaethu yn ôl canlyniad.

Dylai'r lleoliad ddefnyddio'r data/gwybodaeth sydd ar gael i benderfynu lle mae'r plentyn arni gyda'u datblygiad ac i adeiladu proffil y dysgwr. Bydd hyn yn cynnwys y plentyn sydd ag anghenion dysgu, y plentyn sydd yn fwy medrus, a'r plentyn 'yn y canol' sydd yn cael eu hesgeuluso yn aml am nad ydynt y disgyn i un o'r categorïau.

Dull ymarferol i wahaniaethu

Fe ddylai fod yna ddull ymarferol a realistig i wahaniaethu. Mae hi bob amser yn helpu i fod â gweithgaredd ychwanegol wrth law ar gyfer plentyn sydd yn 'gorffen' y gweithgaredd cyn y plant eraill ac ar gyfer y plant mwy medrus. Mae gweithgareddau, gemau a chwestiynau pen-agored i ofyn i'r plant i ddefnyddio'r sgiliau a gwybodaeth maent wedi'u eu hennill neu yn eu hennill, yn arbennig o berthnasol.

Bydd bod yn greadigol gydag adnoddau a chefnogaeth yn lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn cynllunio.

Mae hi'n bwysig amrywio'r ffyrdd y mae plant yn gallu cael gafael ar ddysgu a chyflawni llwyddiant wrth ddysgu ac felly, dylai staff fod yn greadigol.

Pethau i feddwl amdanynt:


- Dylai staff geisio defnyddio'r tri math o wahaniaethu er mwyn gallu cyflwyno'r dulliau dysgu gwahanol.
- Ni ddylai staff ddibynnu ar 'ganlyniad' fel dull o wahaniaethu.
- Dylai staff fod yn greadigol gydag adnoddau a chefnogaeth.

Mathau o wahaniaethu

Beth yw 'ymyriadau wedi'u targedu'?

Mae ymyriadau wedi'u targedu yn estyniad o'r dull gwahaniaethol a strategaethau addysgu o ansawdd uchel y mae staff yn eu mabwysiadu fel rhan o ddarpariaeth gyffredinol y lleoliad. Maent yn cyflwyno strategaethau ac ymyriadau mwy penodol ar gyfer plentyn unigol.

Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn cynnwys cynllunio cefnogaeth a phrofiadau sydd â'r nod o roi cyfle i bob plentyn i ddatblygu a chymryd rhan lawn eu dysgu.



Mae'r cylch o arsylwi, ystyried, cynllunio, gweithredu ac adolygu o ansawdd yn rhan allweddol o ddarpariaeth gyffredinol ac mae'n hanfodol i adnabod camau nesaf plentyn wrth ddysgu neu wrth adnabod ADY posibl.

Yn seiliedig ar dystiolaeth o gyrhaeddiad a/neu gynnydd plentyn, mae'n rhaid i leoliadau ddarparu ymyriadau addas a/neu strategaethau i gefnogi unrhyw feysydd penodol sydd yn achosi pryder. Bydd 'Pecyn Gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir y Fflint' yn rhoi canllaw priodol i staff.

Fe all gweithwyr proffesiynol megis y rhai o'r Gwasanaeth Iechyd, gefnogi ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer plentyn hefyd.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (20.14) yn nodi

'Disgwylir i bob lleoliad addysg weithredu addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau eraill wedi'u targedu sydd wedi'u dylunio i sicrhau gwell cynnydd lle bo'n briodol, i bob dysgwr. Yn wir, bydd angen dull gwahaniaethol ar y rhan fwyaf o blant a dysgwyr mewn rhyw agwedd ar eu haddysg ar ryw adeg. Mae hon yn elfen sylfaenol - ond arferol - o addysgu o ansawdd uchel.'

Ymarfer a Chynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Beth yw Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar ddeall y plentyn cyfan a pheidio canolbwyntio ar anawsterau posibl y plentyn yn unig a beth mae'r plentyn ei angen er mwyn dysgu. Mae hefyd yn ymwneud â beth mae'r plentyn yn gallu ei wneud ac nid yr hyn nad ydynt yn gallu ei wneud.

Mae'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn yn allweddol. Mae staff angen dysgu/adnabod beth sy'n bwysig i'r plentyn, gall yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn osod 'cydbwysedd' sydd yn gweithio i'r plentyn hwnnw.

Yn rhy aml, mae staff a gweithwyr proffesiynol eraill wedi canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r plentyn o safbwynt oedolion. Mae'r safbwyntiau hynny wedi arwain trafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â'r hyn maen nhw'n meddwl mae'r plentyn ei angen er mwyn gwneud cynnydd.

Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn troi'r ffocws yn ôl ar y plentyn. Mae deall beth sy'n bwysig i ac ar gyfer plentyn yn ganolog i ddatblygu eu proffil un dudalen. Bydd y dull yma'n cynorthwyo i ddatblygu canlyniadau perthnasol, ystyrlon a phriodol a gweithrediadau a fydd yn cael eu cytuno yn yr adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae barn y plentyn yn bwysig ac mae ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn galluogi'r plentyn i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt.

Pecynnau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Beth yw pecynnau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Mae pecynnau sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn galluogi i wybodaeth bwysig gael ei chasglu gan ddefnyddio cyfres o dempledi.

Er enghraifft, mae'r pecynnau yma'n cynnwys:

- 'Gwerthfawrogiadau'
- Proffil Un Dudalen
- Siart cyfathrebu (rhan 1)
- Siart cyfathrebu (rhan 2)
- Cofnod Dysgu
- 4 + 1 cwestiwn
- Yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio o safbwyntiau gwahanol
- Cylch Perthynas
- Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Beth sy'n gwneud diwrnod da/diwrnod gwael?

Mae'r holl dempledi yma wedi'u cynnwys yn nogfen Map y Ddarpariaeth.

Y Proffil Un Dudalen

Beth yw 'Proffil Un Dudalen'?

Mae'r Proffil Un Dudalen yn ddogfen un dudalen syml a hawdd i'w ddarllen sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth bwysig am blentyn. Fe ddaw'r wybodaeth yma o dan 3 phennawd:

- 'Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdana i'
- 'Beth sy'n bwysig i mi'
- 'Sut orau i fy nghefnogi i'

Pam defnyddio proffiliau un dudalen?

Y proffil un dudalen yw sylfaen y gefnogaeth sydd wedi'i bersonoli i'r unigolyn. Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol am blentyn sydd yn hawdd i'w ddeall ac y gellir ei ddefnyddio'n gyflym.

Yn ei hanfod, dogfen sydd yn disgrifio'r canlynol yn gadarnhaol yw dogfen proffil un dudalen:

- personoliaeth plentyn;
- cryfderau a thalentau;
- beth sy'n bwysig iddynt;
- y ffordd orau o'u cefnogi nhw.

Mae'r proffil un dudalen yn declyn pwerus a chaiff ei werthfawrogi a'i ddefnyddio i drawsnewid y modd mae pobl yn gweithio a meddwl.

Pryd y dylid ysgrifennu Proffil Un Dudalen a phwy ddylai ei ysgrifennu?

Mae'n bosibl y bydd rhai lleoliadau yn teimlo y bydd plant yn eu lleoliad yn elwa o gael Proffil Un Dudalen; mae'n bosibl y bydd eraill yn penderfynu bod Proffil Un Dudalen yn fwy ymarferol/hwylus ar gyfer y plant sydd angen ymyriadau wedi'u targedu yn unig. Bydd y lleoliad yn gyfrifol am lunio Proffil Un Dudalen gan gofio cynnwys y rhiant (a'r plentyn pan fo hynny'n briodol) wrth ei lunio a nodi'r cynnwys. Dylid adolygu'r Proffil Un Dudalen o leiaf unwaith bob hanner tymor gyda chyfranogiad parhaus y rhiant (a'r plentyn pan fo hynny'n briodol).

Yn gyfrifol am greu, monitro ac adolygu Proffil Un Dudalen mewn lleoliad nas cynhelir sy'n derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol ar gyfer plentyn/plant o Cyfle Cynnar, Dechrau'n Deg, Tîm Datblygu Gofal Plant neu Cynnig Gofal Plant fydd -

Staff lleoliad 'Cyfle Cynnar' sy'n derbyn cefnogaeth gan y Tîm Cyfle Cynnar – athro 'Cyfle Cynnar' yn cymryd rhan

Staff 'Dechrau'n Deg' sy'n derbyn cefnogaeth gan y Tîm Dechrau'n Deg – athro 'Dechrau'n Deg' yn cymryd rhan

'Tîm Datblygu Plant/Cynnig Gofal Plant' – Swyddog Brocera Gofal Plant

Y Proffil Un Dudalen

'Mae'n bwysig i'

Y pethau sydd wir o bwys i blentyn yw'r hyn sy'n bwysig iddynt; pethau sydd yn rhoi pleser iddynt, yn ystyrllon ac yn rhoi ansawdd i'w bywydau. Mae'r rhain yn bethau sydd yn gallu lleihau/lleddfu straen a phryder ar gyfer y plentyn. Er enghraifft, efallai bod yn well gan blentyn chwarae tu allan yn hytrach na than do, yn cael trafferth sefyll mewn llinell/ffurfio ciw, yn ffafrio yfed o'r gwpan felen, neu angen llun o mam neu dad yn ei bag. Os nad ydi'r pethau yma'n digwydd, fe all y plentyn deimlo tristwch/yn anhapus/yn bryderus/dan straen.

Mae'n bwysig 'ar gyfer'

Mae yna bethau sydd eu hangen er mwyn i blentyn ddatblygu yn eu haddysg, yn eu datblygiad ac i aros yn iach a diogel. Yn aml, caiff y rhain eu galw'n 'anghenion asesedig'. Er enghraifft, fe allai fod yn bwysig i blentyn gael dull gwahaniaethol penodol ar gyfer gweithgaredd, neu er enghraifft bod eitemau'n cael eu dal rhyw bellter penodol oddi wrthynt er mwyn iddynt ganolbwyntio arnynt neu fod â chadair benodol i eistedd arni. Mae deall beth sy'n bwysig i blentyn yn golygu y gallwch chi adnabod y ffyrdd gorau o'u cefnogi nhw a'r wybodaeth yma sydd yn cael ei gynnwys yn eu Proffil Un Dudalen.

Cydbwysu 'Mae'n bwysig i' a 'Mae'n bwysig ar gyfer'

Mae cydbwysu beth sy'n bwysig 'i' ac 'ar gyfer' rhywun yn rhywbeth sydd yn digwydd bob dydd. Er enghraifft mae'n rhaid dod o hyd i gydbwysedd rhwng bod eisiau bwyta'r darn olaf o deisen ond gwybod hefyd na fydd yn helpu i gadw pwysau iach, neu er enghraifft, ddewis rhwng mynd am dro ar ôl eistedd wrth ddesg drwy'r dydd a gwybod beth yw pwysigrwydd ymarfer corff, neu eistedd i lawr gyda bowlen o bopgorn a gwyllo eich hoff raglen ar y teledu. Mae'r Proffil Un Dudalen wedi'i ddylunio i helpu i egluro/disgrifio'r cydbwysedd yma ar gyfer y plentyn drwy adnabod yn glir beth sy'n bwysig 'i'r plentyn' ac 'ar gyfer y plentyn' mewn un lle hygyrch.

'Beth sy'n gweithio?' (Pecyn Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)

Dyma gyfle i gydnabod beth sydd yn mynd yn dda ar gyfer y plentyn a helpu i adnabod beth sydd angen bod yn wahanol a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn gwella'r hyn nad oedd yn gweithio. Drwy arsylwi a thrafod gyda'r rhieni/gofalwyr, mae'n adnabod beth sy'n gweithio i'r plentyn.

Mae hefyd yn tynnu sylw at strategaethau ac ymyriadau sydd yn galluogi'r plentyn i allu mynd i'r lleoliad a dysgu; mae'n galluogi'r lleoliad i ddefnyddio 'beth sy'n gweithio' i wella lles a dysgu'r plentyn. Drwy addasu a/neu gynyddu agweddau o'r hyn sy'n gweithio, mae'r plentyn yn fwy tebygol o fod yn hapusach ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, ac felly yn gallu datblygu eu sgiliau a dysgu.

'Beth sydd ddim yn gweithio'

Os nad ydi rhywbeth yn gweithio, nid yw'n golygu bod y plentyn yn methu nac yn gwneud dim byd o'i le. Drwy arsylwi a thrafod gyda'r rheini/gofalwyr i ganfod y pethau nad ydynt yn gweithio, mae'r lleoliad yn gallu mynd i'r afael â hyn ac addasu arferion ac ymyriadau, strategaethau a'r ddarpariaeth i'r plentyn yn unol â hynny.

Y Proffil Un Dudalen

'Sut orau i gefnogi...'

Mae rhannau blaenorol Proffil Un Dudalen ('Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdana i, 'mae'n bwysig i', 'mae'n bwysig ar gyfer'), gafodd eu nodi drwy arsylwi a thrafod gyda rhieni/gofalwyr a'r plentyn (lle y bo'n briodol), yn llywio'r rhan yma o'r Proffil Un Dudalen.

Beth sy'n digwydd os bydd plentyn angen cymorth ychwanegol wedi'i ariannu drwy ddull wedi'i dargedu (ar ôl darparu strategaethau/ymyriadau priodol dros gyfnod rhesymol o amser?)

Os bydd lleoliad yn teimlo bod plentyn angen cymorth ychwanegol wedi'i ariannu er mwyn darparu darpariaeth wedi'i dargedu sy'n briodol, dylai'r lleoliad e-bostio'r 'Ffurflen Gais (gweler t.31) at y gwasanaeth maent yn ceisio cymorth ariannol ganddynt, gan lenwi a rhoi tic yn 'Opsiw'n 1' y ffurflen, ynghyd â gwybodaeth/tystiolaeth ategol.

- Os ydi'r plentyn yn 0-3 oed ac wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg -FSchildcare@flintshire.gov.uk
- Os ydi'r plentyn wedi cofrestru gyda Cyfle Cynnar - www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/Early-Entitlement-Scheme-Flintshire.aspx
- Gellir gwneud cais am gymorth, offer ac adnoddau gan y Tîm Cynnig Gofal Plant /Datblygu Gofal Plant drwy lenwi'r ffurflen ar-lein yn - <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/Childcare-Development-Grants.aspx>

Bydd pob cais yn cael ei asesu gan y 'Panel Cyllid Dirprwyol Cyn Ysgol' a fydd yn seilio eu penderfyniad ar y dystiolaeth y mae'r lleoliad yn ei ddarparu (gweler t.54) sydd yn dangos beth mae'r lleoliad wedi'i wneud, hyd yn hyn i fodloni anghenion y plentyn a thrwy drefnu bod un o'r tîm yn ymweld â'r lleoliad. Bydd yr aelod o'r tîm, a fydd yn casglu rhagor o wybodaeth ac yn arsylwi'r plentyn, yn adrodd yn ôl i'r panel.

Beth sy'n digwydd os bydd plentyn, sydd eisoes yn defnyddio'r Gwasanaethau Iechyd, yn mynd i leoliad ac angen cymorth ychwanegol ar unwaith?

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd plentyn yn mynd i leoliad cyn ysgol sydd eisoes yn derbyn gwasanaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol. Yn yr achos yma, efallai y bydd cais am gymorth ychwanegol yn cael ei wneud yn uniongyrchol i un o'r gwasanaethau uchod drwy'r adran Iechyd.

Beth am y plentyn sydd â rhieni sydd eisieu iddynt aros yn y lleoliad cyn ysgol a pheidio â chofrestru mewn meithrinfa ysgol?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu addysg Feithrin am ddim yn ei ysgolion cynradd prif ffrwd lleol ac mae ar gael i bob plentyn y Sir y Fflint (gellir cael gafael arno drwy broses dderbyniadau arferol ysgolion). Nid yw mynd i'r ysgol yn orfodol tan y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Serch hynny, mae'n well gan rai rhieni anfon eu plant i feithrinfa breifat nes bod eu plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Gellir gwneud cais am gymorth, offer ac adnoddau gan y Tîm Cynnig Gofal Plant /Datblygu Gofal Plant drwy lenwi'r ffurflen ar-lein yn -

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Childcare-Development-Grants.aspx>

Unwaith eto, bydd pob cais yn cael ei ystyried gan y 'Panel Cyllid Dirprwyol Cyn Ysgol' a fydd yn seilio eu penderfyniadau ar y wybodaeth y mae'r lleoliad yn ei ddarparu.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' gyda'r term 'anghenion dysgu ychwanegol'.

'Anghenion addysgol arbennig'

'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY)

'Anawsterau a/neu anableddau dysgu'

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, yn egluro 'Anghenion Dysgu Ychwanegol':

- (1) Mae gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu unigolyn sy'n hŷn na'r oedran hwnnw, anhawster dysgu neu anabledd -
 - (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran neu
 - (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- (3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.
- (4) Os yw'r iaith (neu ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY)

Beth yw Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY)?

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn nodi:

'2.4 (1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran:

- (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
- (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
- (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

Dyletswydd yr Awdurdod Lleol

Beth sy'n digwydd ar frig y triongl?

Ar ôl dilyn y dull graddol, efallai y bydd gan leoliad nas cynhelir, bryderon bod gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan fod y lleoliad wedi dilyn cyngor ac argymhellion yr asiantaethau sy'n rhan o'r achos, mae strategaethau ac ymyriadau perthnasol (yn cynnwys ymyriadau wedi'u targedu) wedi cael eu gweithredu a rhoddwyd cymorth briodol dros gyfnod rhesymol o amser.

Os nad yw'r plentyn dal yn gwneud cynnydd digonol ar eu lefel, a'u bod angen darpariaeth fwy arbenigol sydd yn ychwanegol ac yn wahanol i'r hyn sydd ar gael i blant eraill, mae'n bosibl bod gan y plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY). Yna bydd angen i'r lleoliad wneud cais i'r awdurdod lleol ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy lenwi 'Opsiw'n 3' Ffurflen Gais Cyn Ysgol'.

Cynllun Datblygu Unigol a Gynhelir gan Awdurdod Lleol (CDU)

11.21 'Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo lunio CDU ar ei gyfer' (Cod ADY Cymru 2021),

Ar ôl i'r awdurdod lleol dderbyn y ffurflen gais, mae'r amserlen 12 wythnos yn cael ei chychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y cais, a bydd gan yr awdurdod lleol 12 wythnos i benderfynu a oes gan y plentyn ADY sydd angen DDY a fydd yn arwain at lunio Cynllun Addysg Unigol (CAU) (gweler 'Proses Hysbysu Cyn Ysgol' t.39). Os bydd yr awdurdod lleol yn cytuno bod angen Cynllun Datblygu Unigol, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chyhoeddi'r CDU o fewn yr un cyfnod asesu o 12 wythnos.

Fe all ysgol lunio/dosbarthu Cynllun Datblygu Unigol i bob plentyn sy'n mynychu lleoliad cyn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (e.e. ysgol), oni bai bod y plentyn angen rhyw fath o ddarpariaeth arbenigol nad oes disgwyl i'r ysgol ei ddarparu'n rhesymegol. Mewn achosion o'r fath dylai'r ysgol drafod gyda'r asiantaethau allanol perthnasol a rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy'r ffurflen berthnasol y mae ysgolion yn ei defnyddio ac sy'n cael ei hanfon i aln@flintshire.gov.uk.

Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Ar ôl dod i'r casgliad bod gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), bydd angen rhoi Cynllun Datblygu Unigol ar waith i gefnogi ei anghenion. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, waeth pa mor ddifrifol neu gymhleth yw eu hanhawster dysgu neu anabledd, hawl i'r cynllun cymorth ysgrifennu yma.

Mae dogfen CDU yn cynnwys disgrifiad o'r ADY sydd yn gweithredu fel rhwystr i ddatblygiad y plentyn, a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) sydd yn angenrheidiol i oresgyn neu leihau'r rhwystr.

Fe ddylai plant yn y Blynyddoedd Cynnar sy'n mynychu lleoliad nas cynhelir ac sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY), ddewis 'Opsiw 3' 'Ffurflen Gais (Cyn Ysgol)' (gweler t.22), ei llenwi a'i chyflwyno i aln@flintshire.co.uk gyda'r wybodaeth ategol berthnasol a fydd yn dangos beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn i fodloni anghenion y plentyn ac ati (t.45).

Os bydd angen CDU, fe fydd y plentyn, y rhieni a'r lleoliad yn cael cefnogaeth gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yr awdurdod lleol a bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd angen i leoliadau, rhieni a'r asiantaethau sy'n cymryd rhan weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol wrth baratoi, gweithredu ac adolygu'r CDU.

Mae'n bosibl mai'r ysgol fydd yn gyfrifol am bob plentyn yn y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi cofrestru mewn ysgol, ac sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY). Os bydd plentyn angen darpariaeth arbenigol, yr awdurdod lleol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y CDU.

Atodiadau

- 1 Ffurflen Gais Cyn Ysgol
- 2 Y Broses Hysbysu
- 3 Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar Cyngor Sir y Fflint (drafft)
